**Pwyllgor Diwylliant 15-02 (p.1)**

Dyddiad: 17 Gorfenaf 2002

Amser: 9.00 - 12.15pm

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol

**CYNGOR CHWARAEON CYMRU: CYNLLUN CORFFORAETHOL 2003/2004 – 2005/2006**

**CYFLWYNIAD**

1 Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn cynnwys ei raglenni gwaith ar gyfer y tair blynedd nesaf er mwyn cyrraedd targedau a gwireddu dyheadau Strategaeth Chwaraeon Cymru, "Pobl Ieuainc yn Gyntaf'. Mae hefyd yn cynnwys cais am adnoddau ychwanegol ym Mhennod 7 o'r ddogfen.

2 Y tro diwethaf i'r Cyngor ymddangos ger bron y Pwyllgor, gwnaed cyflwyniad ar amcanion y Strategaeth a sut maent yn gyson â pholis•au'r Cynulliad. Pwysleisiodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr gyfraniad pwysig chwaraeon at iechyd, cynnwys yn gymdeithasol a chyfleoedd cyfartal. Nid oedd digon o amser yn y cyfarfod i drafod pwysigrwydd datblygu perfformiadau ar lefel uchel a sicrhau rhagoriaeth yn y byd chwaraeon yng Nghymru. Ar 20 Ebrill eleni, cafodd y Cynulliad drafodaeth lawn ar chwaraeon elitaidd.

3 Yn y cyfarfod ar 17 Gorffennaf, bydd CChC yn tynnu sylw at y cynnydd a wnaed hyd yma a'r blaenoriaethau ar gyfer canolbwyntio arian yn y dyfodol, yn arbennig yr angen am welliannau i Athrofa Chwaraeon Cymru (AChC) er mwyn sicrhau bod Cymru'n parhau i ragori ar lwyfan y DG a'r byd, gan ddwyn anrhydedd a phroffil rhyngwladol i'r wlad.

**Y CYNNYDD HYD YMA**

4 Drwy ddangosyddion perfformiad a thargedau, mae'r Cynllun yn tynnu sylw at y cynnydd a wnaed o safbwynt:-

4.1 sicrhau mwy o gymryd rhan mewn chwaraeon, yn arbennig ymhlith merched;

4.2 cau’r bwlch mewn cymryd rhan sy’n bodoli rhwng rhanbarthau isel ac uchel eu cyfranogiad, a thargedu cymunedau a eithrir yn gymdeithasol;

4.3 creu mwy o gyfleoedd i blant, yn arbennig genethod;

4.4 gweithredu Cynllun Gweithredu AG a Chwaraeon Ysgol y Cynulliad;

4.5 cadeirio Tasglu Iechyd a Ffordd o Fyw Egn•ol y Cynulliad a chyflwyno adroddiad ar y cyd i’r Gweinidog Iechyd a’r Gweinidog Diwylliant;

4.6 sicrhau rhagoriaeth.

5 Parheir i sicrhau cynnydd oddi mewn i gyllidebau presennol y Trysorlys a’r Loteri. Fodd bynnag, ni all y Cyngor sicrhau rhagoriaeth yn y byd chwaraeon yng Nghymru heb gyllid ychwanegol i wneud gwelliannau yn AChC.

**LLWYDDIANNAU DIWEDDAR Y BYD CHWARAEON YNG NGHYMRU**

6 Ym Mhencampwriaethau Athletau Dan Do Ewrop, enillodd Cymru fedalau aur ac arian. Roedd

y perfformiad hwn yn well na pherfformiad unrhyw wlad arall yn Ewrop, ar sail y pen. Y llynedd, roedd saith o golffwyr Cymru ymhlith y 100 uchaf yn Ewrop. Roedd hyn yn uwch, o ran nifer y boblogaeth, nag unrhyw wlad arall.

7. Yng Ngemau Paralympaidd Sydney, Cymry oedd 20% o dîm Prydain Fawr gan gipio 25% o’r medalau a enillwyd gan athletwyr Prydain (a hynny gan 5% o’r boblogaeth). Enillodd Cymru yr un nifer o fedalau, ar sail y pen o ran poblogaeth y wlad, ag Awstralia – y wlad fwyaf llwyddiannus yn y byd.

8. Bedair gwaith yn olynol yng Ngemau’r Gymanwlad, mae Cymru wedi dod yn drydydd fel gwlad ar sail y medalau a enillwyd y pen o’i gymharu â phoblogaeth y wlad.

9. Cymry yw chwaraewyr badminton sengl gorau Prydain, ymhlith y dynion a’r merched. Maent ill dau wedi dod ymhlith 10 uchaf y byd yn ddiweddar.

10. Cymro yw Pencampwr Bocsio Uwch-Bwysau Canol y Byd.

11. Ym myd sboncen, mae Cymru yn ddiweddar wedi cael dau chwaraewr ymhlith 10 uchaf y byd.

12. Mae gan Gymru feicwraig sydd wedi ennill pedair pencampwriaeth byd ar lefel iau ac yn ddiweddar mae wedi ennill dwy ras ffordd broffesiynol.

13. Y llynedd, enillodd Cymru Bencampwriaethau Pêl Rwyd Ewrop.

14. Mae gan Gymru 150 o bencampwyr Prydeinig ar hyn o bryd ac mewn sawl tîm Prydeinig, mae Cymru'n darparu llawer mwy o gynrychiolwyr na chyfran y boblogaeth (5%).

15. Ar hyn o bryd, mae Cymru'n perfformio'n well nag erioed o'r blaen ar y llwyfan rhyngwladol mewn amrywiaeth eang o chwaraeon. Gwaetha'r modd, seilir barn y cyhoedd a'r gwleidyddion am chwaraeon Cymru ar berfformiadau ein timau pêl droed a rygbi cenedlaethol. Mae'n sicr bod diffyg llwyddiant y byd pêl droed a rygbi'n dylanwadu ar y farn am chwaraeon Cymru, er nad oes unrhyw amheuaeth bod record ddiweddar y ddwy gamp yma'n gwrthgyferbynu'n llwyr â llwyddiant chwaraeon eraill.

16. Mae'n eironig bod gan gyrff rheoli pêl droed a rygbi Cymru lawer mwy o incwm na'r holl gyrff rheoli eraill (59) i gyd, ond eto mae'n ymddangos mai arian sy'n arwain y drafodaeth bresennol ym myd rygbi. Nid oes unrhyw amheuaeth ynghylch y materion difrifol cysylltiedig â strwythur, rheolaeth, cyfeiriad ac arweinyddiaeth yn y ddwy gamp.

**CYLLID**

17. Mae Cymru nid yn unig yn gwneud yn dda ar sail y pen ond mae hefyd yn cynnig gwerth am arian rhagorol yn sgil buddsoddiad cyhoeddus. Yn y DG, mae rhaglenni perfformiad a rhagoriaeth yn dibynnu'n helaeth ar refeniw a godir drwy gyfrwng y Loteri Genedlaethol. Mae gan Gyngor Chwaraeon Cymru gyllideb o £1.5m ar gyfer ei raglenni perfformiad refeniw a rhagoriaeth. Yn yr Alban, mae'r gyllideb oddeutu £8m ac, yn Lloegr, mae'r gyllideb flynyddol bron yn £40m. Mae Cymru dan anfantais ariannol sylweddol wrth gymharu â gwledydd eraill. Neilltuir cyllid y loteri ar sail y pen. Ond eto, mae maint y timau cenedlaethol a'r costau cysylltiedig â'u cefnogi yn union yr un fath. Mae tîm pêl rwyd cenedlaethol Cymru wrth reswm yr un maint â thîm pêl rwyd cenedlaethol Lloegr ac felly mae'r costau yn union yr un fath ond mae'r cyllid sydd ar gael yng Nghymru yn llai na 5% o'r cyllid sydd ar gael yn Lloegr.

**FFORMIWLA**

18. Mae’r fformiwla ar gyfer llwyddiant mewn chwaraeon elitaidd yn syml mewn egwyddor:-

Cystadleuydd talentog + hyfforddwr medrus + defnydd o gyfleusterau + cystadlaethau priodol = llwyddiant.

Mae’n ddyrys ceisio gweithredu’r egwyddor hon ar adegau ac yn sicr mae angen llawer o fuddsoddiad. Un elfen allweddol yw darparu cyfleuster cenedlaethol fel AChC.

**CYFLEUSTERAU**

19. Yn gyffredinol, mae gan Gymru ddarpariaeth dda o gyfleusterau cenedlaethol ar gyfer ymarfer a chystadlu. Er enghraifft, y Ganolfan Chwaraeon Dw^r Genedlaethol ym Mhlas Menai; y Ganolfan Ganw^io Genedlaethol yn y Bala; Stadiwm y Mileniwm ac Athrofa Chwaraeon Cymru yng Nghaerdydd.

20. Hefyd, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda chymorth y Loteri, mae cyfleusterau cenedlaethol newydd wedi cael, neu wrthi’n cael, eu sefydlu ar gyfer criced yng Ngerddi Sophia; ar gyfer athletau yn Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd; ar gyfer nofio ym Mhrifysgol Abertawe ac ar gyfer beicio yng Nghasnewydd. Ceir cynlluniau ar gyfer cyfleusterau cenedlaethol a rhanbarthol eraill ar hyn o bryd.

21. Mae AChC dros 30 mlwydd oed yn awr ac eisoes mewn angen dybryd am gael ei hadnewyddu a’i moderneiddio. Bydd raid i’r Cynulliad roi sylw i’r mater hwn. Mae’r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys cais am £12.75m i adnewyddu’r cyfleusterau presennol a chreu academ•au penodol ar gyfer chwaraeon. Cyflwynwyd papur mewn-egwyddor i’r Gweinidog, yn nodi’r opsiynau. Mae’r Athrofa’n gwasanaethu fel canolfan hyfforddi genedlaethol ar gyfer 16 o gampau, mae hefyd yn ganolfan ac yn bencadlys rhaglen Élite Cymru ac yn cynnwys labordy gwyddoniaeth chwaraeon a darpariaeth feddygaeth chwaraeon. Eisoes mae gennym Athrofa lwyddiannus iawn ac mae’n bwysig iawn ein bod yn cynnal ac yn gwella ei safle ledled y DG. Nid oes unrhyw amheuaeth mai AChC yw’r ganolfan a ddefnyddir orau yn y Deyrnas Gyfunol o ran canolfannau o’r math yma ac mae’n hanfodol bwysig ein bod yn cynnal ei statws.

**CRYNODEB**

22. Yn y byd chwaraeon, nid yw cynnal y safonau presennol yn unig yn opsiwn. Efallai na fydd perfformiad medal aur heddiw yn ddigon i gyrraedd y rownd

derfynol yfory. Mae gwell buddsoddi'n gwbl angenrheidiol. Mae Cymru'n gwneud yn well na'r disgwyl ac yn gwneud y gorau o arian y cyhoedd. Mae angen rhagor o fuddsoddi, yn arbennig er mwyn sicrhau bod Athrofa Chwaraeon Cymru'n cynnal ei gwasanaeth a'i darpariaeth ar gyfer y genhedlaeth nesaf o ddynion a merched talentog y byd chwaraeon.

**Cyngor Chwaraeon Cymru**